# <u>Hysbysiad o Gynnig</u>

## A5026 FFORDD HOLWAY A A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON

## GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG I AROS AR UNRHYW ADEG A BWRIAD I DDYMODI AROS AR UNRHYW ADEG

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013, i gyflwyno:-

1. Cyflwyno cyfyngiadau ‘Dim Aros ar Unrhyw Adeg’: -

   a. Ar ochr dde-orllewinol yr A5026 Heol Holway, Treffynnon, ger cyffordd yr A5026 Whitford Street.

2. Diddymu cyfyngiadau presennol ‘Dim Aros ar Unrhyw Adeg’: -

   a. Mewn lleoliadau amrywiol ar ochr dde-orllewinol yr A5026 Whitford Street, Treffynnon.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol ‘Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013’ yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yng Nghyngor Sir y Fflint yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â’r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn neu e-bost i transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener 05 Gorffennaf 2024 gan ddyfynnu cyfeirif SS/TRO/JB/67

KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dyddiedig Mehefin 14 2024.

## A5026 FFORDD HOLWAY A WHITFORD STREET, TREFFYNNON

## GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG I AROS AR UNRHYW ADEG A DIRYMU AROS AR UNRHYW ADEG

## Datganiad o'r Rhesymau dros Gynnig Gwneud y Gorchymyn

Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ac o'r herwydd mae Cyngor Sir y Fflint wedi cael cyllid i roi mesurau diogelwch sylweddol ar waith yn yr ardal o amgylch Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol y Santes Gwenffrewi.

Fel rhan o hyn, mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu cyflwyno cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl) a chael gwared ar adrannau cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl), ar y ffyrdd fel y rhestrir uchod.

Bydd Cyflwyno'r cyfyngiadau arfaethedig ar Dim Aros ar Unrhyw Adeg yn gwella diogelwch cerddwyr a holl ddefnyddwyr y ffordd drwy gael gwared ar gerbydau wedi'u parcio mewn lleoliadau allweddol. Bydd hefyd yn cynorthwyo gyda llif esmwyth traffig a chynnal gwelededd yng nghyffiniau'r A5026 Ffordd Holway gyda chyffordd yr A5026 Whitford Street.

Bydd dileu cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg ar yr A5026 Whitford Street yn cyfreithloni'r trefniadau parcio anghyfreithlon presennol, ble mae cerbydau yn parcio y tu ôl i'r llinellau melyn dwbl presennol, sy'n drosedd.

Er lles diogelwch ar y ffordd, mae'r cynigion yn angenrheidiol i osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd, neu i atal perygl rhag digwydd.

**Ceir manylion am y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig.**

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dydd Gwener, 14 Mehefin 2024

**DYDDIEDIG XX XXXXX 202X**

---

# GORCHYMYN

# A5026 HOLWAY ROAD A'R A5026

# WHITFORD STREET, TREFFYNNON

# (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR

# AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)

# (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 67) 202- CYNGOR SIR Y FFLINT

---


**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),**

**Neuadd y Sir,**

**Yr Wyddgrug,**

**Sir y Fflint,**

**CH7 6NF**

**GORCHYMYN**

**A5026 HOLWAY ROAD A'R A5026**

**WHITFORD STREET, TREFFYNNON**

**(GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR**

**AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO**)

**(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 67) 202- CYNGOR SIR Y FFLINT**

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

**ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL**

**<u>Enwi a chychwyn</u>**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar XX XXX 202- a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint A5026 Ffordd Holway a'r A5026 Whitford Street, Treffynnon(Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 67) 202-

2. Yn dod i rym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, mae Atodlen Map Y46 Taflen Adolygu Rhif 3 yn disodli Aodlen Map Y46 Taflen Adolygu Rhif 2: ac Atodlien Map Y45- Taflen Adolygu Rhif 2 yn disodli Atodlen Map Y46 Taflen Adolygu Rhif 1 ac mae'r holl atodlenni map eraill ynghyd â'r atodlenni map a grybwyllwyd eisoes a chynlluniau y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn cael eu hymgorffori yng Ngorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgrynhoi) Cyngor Sir y Fflint 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw ac

mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn gyfeiriad at gynllun sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn hwn.

**ATODLEN 1**

**Dim Aros ar Unrhyw Adeg**

**Treffynnon**

| **Enw'r Ffordd** | **Atodlen Map** | **Taflen Adolygu** |
|---|---|---|
| Ffordd Holway A5026 | Y46 | 3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013) |
| Ffordd Holway A5026 | Y45 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |

**ATODLEN 2**

**Diddymu 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg'**

**Treffynnon**

| **Enw'r Ffordd** | **Atodlen Map** | **Taflen Adolygu** |
|---|---|---|
| A5026 Whitford Street | Y46 | 3 (sy'n disodli Taflen Adolygu 2 o Orchymyn 2013) |


Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y xx diwrnod hwn o xxxx 202- )
yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**UWCH GYFREITHIWR**




# Key

Arfaethdig Dim Aros Ar Unrhyw Adeg Llinell felen ddwbl / Double Yellow Line Proposed No Waiting at Any Time

Dim Aros Ar Unrhyw Adeg Llinell felen ddwbl / Double Yellow Line Existing No Waiting at Any Time to be removed

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council
Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
Streetscene
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Project:

## A5026 Holway Road and Whitford Street Holywell

## Ar Unrhyw Adeg


## Waiting Restrictions

| Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF | | |
|---|---|---|
| Contact Name: | Telephone: 01352 703264 | |
| Drawn by: CE | Fax No: 01352 70 | |
| Checked by: | Date: 2024 | Sheet 1 of 1 |
| Scales at A1: NTS | Drawing No: | Phase/Rev: |

AutoCAD File Ref: H:\TRO's Lining\TRO's 2024\Holway Road & Whitford Street Holywell\Part 2 Proposed Order\holywell lining holway road.dwg Jun 11, 2024 - 2:46pm

AREA CODE: Y45
COD ARDAL: Y45

Sheet Revision No: 2
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 3
Sheet active from: xxxxxxxxxxx
Dalen yn weithredol o: xx xxxxxxx xx




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386

## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 67) Order 20xx

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 67) 20xx


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF

AREA CODE: Y46
COD ARDAL: Y46

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Sheet Revision No: 3
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 3
Sheet active from: xxxxxxxxxxx
Dalen yn weithredol o: xx xxxxxxx xx




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386


## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places)
## (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 67) Order 20xx

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
## (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 67) 20xx


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF